


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL



Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

18 Medi 2018

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 24 MEDI 2018** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 3. CYFLWYNO COPI O'R YSGRYTHURAU GIDEON I'R MAER**
Cyflwyno copi Gideon o'r Ysgrythurau i'r Cynghorydd Ian Lewney gan aelod o'r Gideoniaid Rhyngwladol.
- 4. ADRODDIAD YR HEDDLU**
To receive a report on policing matters from Sergeant Martin Jones.
- 5. ADRODDIAD Y MAER**
- 6. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 7. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2018 yn gywir.
- 8. MATERION YN CODI**
- 9. PWYLLGOR PWERAU BRYD**
Derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener, 17 Awst 2018.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

www.cyngortrefrhuthun.gov.uk / www.ruthintowncouncil.gov.uk

- 10. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.
- 11. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.
- 12. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.
- 13. COFNODION PWYLLGOR Y GYMRAEG**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.
- 14. DYDDIADAU CYFARFODYDD YN 2019**
Derbyn gwybodaeth am Ginio Elusennol y Maer a chymeradwyo dyddiadau cyfarfodydd y flwyddyn nesaf.
- 15. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)**
Debryn diweddariad ynghylch trefniadau GDPR a chymeradwyo'r polisïau a'r hysbysiadau.
- 16. PANEL ADOLYGU ANNIBYNNOL CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU – CANFYDDIADAU AMLINELLOL AC ARGYMHELLION**
Ystyried goblygiadau'r canfyddiadau amlinellol a'r argymhellion.
- 17. AROLWG O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR DDINBYCH**
Ystyried Adroddiad Cynigion Drafft Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
- 18. PRIS DYFRIO'R BASGEDI CROG**
Ystyried cais gan J & C Brimble i gywiro camgymeriad yn y rhestrau prisio ar gyfer 2018, 2019 a 2020.
- 19. MAES CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA**
Ystyried cynnig gan Glwb Peldroed Rhuthun i baentio'r ffens o gwmpas y maes chwarae, yn amodol ar y Cyngor Tref yn darparu'r paent.
- 20. CALENDR ELUSEN Y MAER**
Gwneud cais i'r taliad am galendrau Elusen y Maer gael ei dalu o gyfrif Cyngor Tref Rhuthun yn gyntaf, a'i ad-dalu maes o law o elw gwerthu'r calendrau.
- 21. TYSTYSGRIF ARCHWILIO AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL**
Derbyn Tystysgrif Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Adroddiad Materion yn Codi yr archwilydd allanol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018.
- 22. DATGANIAD ARIANNOL**
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31 Awst 2018.
- 23. CYFRIFON I'W TALU**
Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:
- | | | | |
|--------|----------------------|--|-----------|
| 100033 | J & C Brimble | Dyfrio'r basgedi crog | £1,001.00 |
| 100034 | SLCC Enterprises Ltd | Seminar Hyfforddiant Rhanbarthol, Llandudno, 05.09.18 | * £90.00 |
| 100035 | Llanfwrog CIC | Torri glaswellt – Medi | £352.26 |
| 100036 | HMRC | Treth incwm ac Yswiriant Gwladol | £295.55 |
| 100037 | Denbigh Town Council | Cyfran o'r costau teithio i gyfarfod cangen SLCC yn Nhreffynton | £4.70 |

| | | | | |
|--------|-----------------------------------|---|---|---------|
| 100038 | Cyng. Gavin Harris | Menyg, gwregysau gloyw, ffyn codi sbwriel a bagiau bin o Workplace-Worksafe | * | £361.08 |
| 100039 | Cyng. Gavin Harris | Protek 25 litr o staen pren lliw du | | £208.00 |
| 100040 | Cyng. Gavin Harris | Batri lithiwn gyda batri rhannu pŵer | * | £119.98 |
| 100041 | Cyng. Gavin Harris | Glanhwr pwysedd cludadwy di-gebl 'Hydroshot' | * | £119.99 |
| 100042 | Cyng. Gavin Harris | Torrwr glaswellt di-gebl | * | £63.99 |
| 100043 | Cyng. Gavin Harris | Chwythwr lithiwm di-gebl – corff yn unig | * | £39.99 |
| 100044 | Cyng. Gavin Harris | 3 x goleuadau solar Albany gan y Solar Centre | * | £127.45 |
| 100045 | Richard Williams (Deganwy) Ltd | Eitemau ar gyfer Tîm Tref Taclus Rhuthun | * | £241.16 |

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £223.95)

RHAN DAU – EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem(au) a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel a ddiffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

24. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyn manylion am yr uchod a chadarnhau'r taliad sy'n ddyledus a'r treuliau a hawliwyd.

25. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 22 Hydref 2018, am 7.00pm.